

# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion y Cyfarfod:

<b>Teitl y Grŵp Trawsbleidiol:</b>	Y Grŵp Trawsbleidiol ar Nychdod Cyhyrol a Chyflyrau Niwrogyhyrol
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	10 Tachwedd 2021
<b>Lleoliad:</b>	Zoom

## Yn bresennol:

<b>Enw:</b>	<b>Teitl:</b>
Rhun ap Iorwerth AS	Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Nychdod Cyhyrol a Chyflyrau Niwrogyhyrol
Heledd Roberts	Swyddfa Rhun ap Iorwerth
Cefin Campbell AS	Aelod o'r Senedd
Catherine Woodhead	Prif Swyddog Gweithredol Muscular Dystrophy UK
Bobby Ancil	Pennaeth Datblygu Gwasanaethau Iechyd, Muscular Dystrophy UK
Michaela Regan	Uwch Reolwr Polisi Iechyd, Muscular Dystrophy UK
Lucia Gillespie	Swyddog Gwybodaeth ac Eiriolaeth – Cymru, Muscular Dystrophy UK
Gabriella Lott	Intern Polisi, Muscular Dystrophy UK
Rachel Salmon	Cynghorydd Gofal Niwrogyhyrol
Alice Spilsbury	Cynghorydd Gofal Niwrogyhyrol
Dr Ellie Marsh	Ymgynghorydd Niwrogyhyrol
Gwenno Davies	Therapydd Galwedigaethol
Heledd Tomos	Ffisiotherapydd
David Heyburn	Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Is-gadeirydd Rhwydwaith Niwrogyhyrol Cymru
Ffion Johnstone	Cynrychiolydd Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr

Lisa Love-Gould	Cyfarwyddwr Clinigol Therapiau (Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg)
Richard Haselgrove	Cynrychiolwr cleifion
Morvenna D Richards	Cyfrannwr cyhoeddus
Stephen Hiles	Claf

### Ymddiheuriadau:

Enw:	Teitl:
Eluned Morgan AS	Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Delyth Jewell AS	Aelod o'r Senedd
Rhys ab Owen AS	Aelod o'r Senedd
Heledd Fychan AS	Aelod o'r Senedd
Peter Isaac	Claf
Pamela A Howells	Claf

### Crynodeb o'r cyfarfod:

- Enwebu Cadeirydd: Gofynnodd Catherine Woodhead, Prif Swyddog Gweithredol Muscular Dystrophy UK am enwebiadau. Cynigiwyd ac eiliwyd Rhun ap Iorwerth. Cadarnhawyd mai Rhun ap Iorwerth yw'r Cadeirydd newydd.
- Rhoddodd David Heyburn, Cadeirydd Rhwydwaith Niwrogyhyrol Cymru y wybodaeth ddiweddaraf:
  - Mae COVID-19 wedi arwain at gollu momentwm wrth lobio swyddogion Llywodraeth Cymru.
  - Mae llawer o gleifion â chyflyrau niwrogyhyrol yn parhau i fynd o le i le heb y gwasanaeth iechyd gan fod y system ei hun dan bwysau ac nid yw'n cydnabod yr heriau o gael cyflwr niwrogyhyrol a gorfod byw â hynny.
  - Yr hyn sy'n ofynnol ar gyfer cleifion niwrogyhyrol yw gofal unigol, ac yn fwy penodol, gofal cyffredinol da gyda mewnbwn arbenigol pan fo angen.
  - Byddai swm cymharol fach o arian (£100,000 gan bob un o'r byrddau iechyd) yn arwain at newid mawr.
  - Hoffai weld rheolwr rhwydwaith a ariennir gan y GIG.
    - Caiff y flaenoriaeth adfer hon ei chynnwys mewn llythyr at Weinidog Iechyd Cymru.
- Rhoddodd Morvenna Richards, aelod o'r cyhoedd, fewnbwn:

- Hoffai weld mwy o hyfforddiant i staff meddygol ynglŷn â chyflyrau niwrogyhyrol, yn ogystal â rhywle y gallant ei alw os ydynt yn anghyfarwydd â chyflwr.
- Mae'n anghyfforddus ynglŷn â dyfodol gofal cymdeithasol gan ei bod yn ofni efallai y bydd yn rhaid i'r rheini â chyflyrau niwrogyhyrol ddibynnu'n llwyr ar elusennau a gwirfoddolwyr.
- Cyflwynodd Catherine Woodhead - Prif Weithredwr Muscular Dystrophy UK - adroddiad newydd 'Shine a Light' MDUK ynghylch effaith COVID-19 ar bobl â chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau yng Nghymru.
  - Cyflwynwyd canfyddiadau ac argymhellion o'r adroddiad:
    - Cynhaliwyd arolwg cenedlaethol rhwng mis Mawrth 2020 a mis Chwefror 2021 a oedd yn canolbwyntio ar yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar bobl sy'n byw gyda chyflyrau sy'n nychu'r cyhyrau, bylchau sy'n bodoli eisoes mewn gwasanaethau niwrogyhyrol, a meysydd blaenoriaeth i gryfhau gofal niwrogyhyrol wrth symud ymlaen.
  - Profodd 78 y cant o ymatebwyr yng Nghymru amhariad neu oedi wrth gyrchu apwyntiadau clinig arbenigol ar gyfer y cyhyrau.
  - Dywedodd 19 y cant fod eu mynediad at ofal anadlol arbenigol wedi cael ei effeithio, ei newid, neu ei ohirio.
  - Dywedodd 16 y cant fod mynediad at ffisiotherapi niwrogyhyrol arbenigol wedi cael ei effeithio, ei newid, neu ei ohirio.
  - Cafodd y pandemig effaith fawr ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl â chyflyrau niwrogyhyrol, ond roedd llawer o broblemau hefyd yn bodoli eisoes.
  - 5 argymhelliad allweddol ar gyfer datblygu ym maes gofal arbenigol niwrogyhyrol yng Nghymru wrth symud ymlaen:
    - Dylid dyrannu cyllid cynaliadwy a chyson ar gyfer gwasanaethau niwrogyhyrol i adlewyrchu anghenion gofal y boblogaeth niwrogyhyrol yn gywir.
    - Dylid dyrannu cyllid cynaliadwy a chyson ar gyfer gwasanaethau niwrogyhyrol er mwyn adlewyrchu anghenion gofal y boblogaeth niwrogyhyrol yn gywir gan gynnwys creu mwy o swyddi ymgynghorwyr niwrogyhyrol, ffisiotherapyddion, nyrsys arbenigol, seicolegwyr a chynghorwyr gofal.
    - Dylid sicrhau cyllid y GIG i gefnogi Rhwydwaith Niwrogyhyrol Cymru i benodi rheolwr rhwydwaith i helpu i nodi bylchau mewn gwasanaethau lleol a gweithredu atebion mwy amserol.
    - Dylid darparu mynediad at wasanaethau seicolegol arbenigol ac iechyd meddwl i bobl sydd â chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau.
    - Dylid darparu mynediad prydlon a lleol at driniaethau a therapïau newydd i bobl yng Nghymru.
    - Dylid cynyddu nifer y staff niwrogyhyrol hyfforddedig sy'n gallu gweithio gyda gwasanaethau cymunedol a phontio'r bwlch rhwng timau niwrogyhyrol arbenigol a'u hardaloedd cyfagos.
- Rhoddodd Dr Ellie Marsh, ymgynghorydd niwrogyhyrol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gyflwyniad ar ei phrofiad yn ystod y pandemig:
  - Mae gofal annigonol a gwael i gleifion â chyflyrau niwrogyhyrol yng Nghymru.

- Nid oes gan y rhwydwaith niwrogyhyrol unrhyw arweinyddiaeth glinigol.
    - Nid oes gan gleifion yr arweinwyr ymchwil sydd eu hangen i gael mynediad at driniaethau newydd.
  - Mae angen mwy o arian gan y GIG.
  - Mae angen neilltuo mwy o amser penodedig i gyflyrau niwrogyhyrol.
  - Nid oes gan gynghorwyr gofal y cymorth sydd ei angen arnynt, yn rhannol oherwydd diffyg meddygon.
  - Mae pandemig COVID-19 wedi arwain at straen difrifol ar staff meddygol.
    - Darparwyd sawl math o hyfforddiant newydd i feddygon a chyfrifoldebau nad oeddent o reidrwydd yn gymwys i ymgymryd â nhw. Er enghraifft, gwnaed Dr Marsh yn gyfrifol am ward COVID-19.
    - Adnoddau ysbyty a ddyrannwyd
    - Ni chafodd meddygon unrhyw arweiniad gan fyrddau iechyd ar apwyntiadau wyneb yn wyneb i gleifion â chyflyrau niwrogyhyrol.
  - Mynegwyd pryderon o ran y ffaith na fydd cael un rheolwr strategol unigol yn helpu cymaint ag y mae pobl yn ei feddwl.
- Rhoddodd Richard Haselgrove, person sy'n byw gyda chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau, gipolwg o'i brofiad yn ystod y pandemig:
  - Rhannodd ei brofiad personol o gael mynediad at ofal iechyd ar gyfer atroffi cyhyrol ar ei feingefn yn ystod pandemig COVID-19, gan ddweud ei fod yn "erchyll".
    - Roedd yn teimlo'n ynysig oddi wrth ei rwydwaith cymorth meddygol a'r broblem fwyaf oedd nad oedd yn gallu gweld ei feddyg teulu.
    - Roedd gwarchod yn gwneud iddo deimlo ei fod yn cael ei eithrio.
    - Gwnaeth lawer llai yn gorfforol, ac nid yw hynny'n dda i rywun sydd â chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau.
    - Roedd yn syllu ar yr un pedair wal bob dydd, profiad a roddodd straen ar ei iechyd meddwl.
    - Ar ôl i'r angen i warchod ddod i ben, roedd yn pryderu a ddylai fynd allan.
  - Roedd ofn arno oherwydd diffyg pobl sydd â gwybodaeth ofal arbenigol am gyflyrau sy'n nychu'r cyhyrau yng Nghymru.
    - Dywedodd fod gofal yn disgyn ar ysgwyddau "ambell berson ag ewyllus da".
  - Hoffai weld rhwydwaith seicoleg ar gyfer pobl â chyflyrau niwrogyhyrol yng Nghymru.
- Rhoddodd Stephen Hiles, aelod o'r cyhoedd, yr adborth a ganlyn:
  - Awgrymodd y dylai *Adroddiad Thomas* gael ei gylchredeg ymhlith ei aelodau presennol
    - *Adroddiad Thomas: Lanswyd Access to Specialist Neuromuscular Care in Wales* ym mis Gorffennaf 2010, ac mae'n pwysleisio'r angen i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r bylchau sylweddol yn narpariaeth gofal niwrogyhyrol arbenigol a amlygwyd gan dystion arbenigol.

